



Cam 6: Cynnal ymchwil marchnata

Bwriadau dysgu

- Dylunio a chynnal arolwg
- Llunio siart bar

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn adolygu sut i ddylunio arolwg ac adeiladu siart bar trwy gyd-destun gafaelgar ymchwil marchnata. Mae'r plant yn dylunio ac yn cynnal arolwg i ddarganfod am hoffterau eu darpar gwsmeriaid. Yna maent yn defnyddio canlyniadau eu harolwg i lywio eu penderfyniadau wrth ddewis cynnyrch terfynol i'w busnes ei wneud.

Defnyddiau sydd eu hangen

- Papur sgwâr/graff neu dempled siart bar

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2 a 3: Cyflwyniad i ymchwil marchnata	<ul style="list-style-type: none">• Dangoswch y sleidiau PowerPoint a defnyddio cwestiynu i gyflwyno ymchwil i'r farchnad a sut y gallwn ei ddefnyddio i'n helpu i benderfynu pa gynnyrch bydd y dylem ei wneud gyda'n cynnyrch.• Casglwch syniadau am sut y gallai'r plant gofnodi eu canlyniadau (awgrymwch siart tali).• Casglwch syniadau am sut y gallai'r plant arddangos eu canlyniadau (awgrymu siart bar).
Sleid 4: Mathau o gwestiynau	<ul style="list-style-type: none">• Esboniwch, ar gyfer yr arolwg hwn, bod angen i ni ofyn cwestiwn amlddewis caeedig, gan gynnig ystod fach o opsiynau cynnyrch bydd a gofyn i gyfranogwyr ddewis yr opsiwn yr hoffent fwyaf. Bydd hyn yn dweud wrthym a fydd pobl eisiau prynu ein cynnyrch ai peidio ac a oes bwllch yn y farchnad y gall ein cynnyrch ei lenwi.
Sleid 5: Mathemateg gydag ystyr	<ul style="list-style-type: none">• Mewn grwpiau busnes gallu cymysg, gofynnwch i blant ysgrifennu eu cwestiwn ymchwil i lawr e.e. beth yw'r bydd amser cinio mwyaf poblogaidd ym Mlwyddyn 5/CA2/ein hysgol?• Fe allech chi awgrymu bod hanner y plant o fewn pob grŵp yn defnyddio cwestiwn ymchwil ychydig yn wahanol e.e. gallai un pâr gasglu data gan fechgyn blwyddyn 5 a gallai un arall gasglu data gan ferched – bydd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am bwy allai eu marchnad darged fod a bydd hyn yn eu helpu yn nes ymlaen.

	<p>Gweithgaredd ymarferol: Casglu data</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r plant lunio tabl i gofnodi eu canfyddiadau cyn casglu eu data. • Rhowch gyfle i blant gasglu atebion gan gynifer o blant â phosib o ystod o grwpiau blwyddyn. • Caniatewch amser i aelodau'r grŵp roi adborth am eu canfyddiadau i'w grwpiau. • Gallai'r plant ddefnyddio Microsoft neu Google Form ar-lein i gynnal eu hymchwil a gellid cynhyrchu gwahanol ffurflenni ar gyfer gwahanol grwpiau targed. • Yna gellid ehangu'r sylfaen ymchwil trwy rannu'r arolwg â rhieni neu ysgolion eraill gan ddefnyddio cod QR (www.qrstuff.com) neu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol/gwefan eich ysgol. • Defnyddiwch y cyfle hwn i arwain trafodaeth ar y cyrhaeddiad y gall rhannu arolwg ar gyfryngau cymdeithasol ei gael a sut y gallai effeithio ar ansawdd y data a dderbynnir.
<p>Sleid 6: Adolygu siart bar</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Er mwyn ein helpu i ddod i gasgliadau am y dewis mwyaf poblogaidd a hoffterau gwahanol grwpiau cyfranogwyr o'n data, eglurwch y gallwn dynnu siart bar gan y bydd hyn yn rhoi darlun gweledol i ni o'n data ac yn gwneud tueddiadau'n gliriach. • Adolygu dysgu blaenorol trwy ofyn i'r plant ysgrifennu rhestr o awgrymiadau da ar gyfer llunio siartiau bar. Gellid cwblhau hwn fel gweithgaredd blwch siocled: mae gan bob plentyn ddarn plaen o bapur y mae'n ei blygu'n 6 segment. Maen nhw'n llenwi un o'r segmentau gyda syniad eu hunain ac yna'n cerdded o amgylch yr ystafell i gasglu atebion gan eu cyfoedion nes bod y segmentau sy'n weddill yn llawn a bod ganddyn nhw 6 awgrym gwahanol ar gyfer llunio siartiau bar.
<p>Sleid 7 ac 8: Nodweddion siart bar</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannwch y PowerPoint i ailadrodd nodweddion siart bar a rhannu awgrymiadau da ar gyfer lluniadu un. • Gofynnwch i'r plant blotio siart bar i arddangos eu canlyniadau ymchwil marchnata. • Gallech eu hymestyn yma trwy hefyd gwmpasu sut i dynnu siart cylch ychwanegol.
<p>Sleid 9: Amser penderfynu!</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r plant ddod i benderfyniad terfynol ynghylch beth fydd cynnyrch bwyd eu grŵp. Esboniwch nad oes raid iddyn nhw wneud y dewis mwyaf poblogaidd – gallen nhw geisio apelio i farchnad arbenigol. • Gofynnwch i'r plant ysgrifennu paragraff byr i egluro'r hyn a ddangosodd eu hymchwil marchnad a'r penderfyniad terfynol y daeth eu grŵp iddo.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Mathemateg	Ystadegau	<ul style="list-style-type: none">Cwblhau, darllen a dehongli gwybodaeth mewn graffiau a thablau, gan gynnwys amserlenni
Gwyddoniaeth	Gweithio yn Wyddonol	<ul style="list-style-type: none">Cofnodi data a chanlyniadau cymhlethdod cynyddol gan ddefnyddio diagramau a labeli gwyddonol, allweddi dosbarthu, tablau, graffiau gwasgariad, graffiau bar a llinell
Cyfrifiadureg		<ul style="list-style-type: none">Dewis, defnyddio a chyfuno amrywiaeth o feddalwedd (gan gynnwys gwasanaethau rhynggrwyd) ar ystod o ddyfeisiau digidol i ddylunio a chreu ystod o raglenni, systemau a chynnwys sy'n cyflawni nodau penodol, gan gynnwys casglu, dadansoddi, gwerthuso a chyflwyno data a gwybodaeth